



# Ysgol Panteg

## Prospectws | Prospectus

### 2025-2026



# Pwy ydyn ni?

## Who are we?



Caredig



Kind

Angerddol



Fired Up

Teulu



Family

Uchelgeisiol



Ambitious

Sail gref ar gyfer safonau academaidd a lles  
A firm foundation for academic and wellbeing standards

Dysgwyr angerddol  
Fired up learners

Lledaenu gorwelion a pharotoi disgyblion ar gyfer bywyd  
Expanding horizons and preparing children for life

Darparu profiadau a chyfleoedd cyfoethog  
Rich learning experiences and opportunities

Bachu ar gyfleoedd arloesi  
Grasping chances for innovation

Ymfalchïo yn ein Cymreictod, iaith, hunaniaeth a threftadaeth  
Loving our Welshness, language, identity and heritage

Cynnu tân dewrder, chwilfrydedd a chymhelliant  
Lighting the fire of bravery, curiosity and motivation

Cenhedaeth gref sy'n agor drysau  
A strong mission that opens doors

Teulu caredig ac uchelgeisiol  
Kind and ambitious family





# MANYLION CYFFREDINOL | GENERAL DETAILS

## CYFEIRIAD YR YSGOL | SCHOOL ADDRESS

Ysgol Panteg  
Heol Yr Orsaf | Station Road  
Tre Griffith | Griffithstown  
Pont-y-Pŵl | Pontypool  
Torfaen  
NP4 5JH

## RHIF FFÔN | TELEPHONE NUMBER

01495 762581

## CYFEIRIAD EBOST | EMAIL ADDRESS

office.ysgolpanteg@torfaen.gov.uk

## GWEFAN | WEBSITE

[www.ysgolpanteg.cymru](http://www.ysgolpanteg.cymru)

## DOLEN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | SOCIAL MEDIA HANDLE

@ysgolpanteg

## HEAD | PENNAETH

Dr. Matthew James Williamson-Dicken, MA(Ed), PGCert, BA(Hons), CMgr FCMI

## DEPUTY HEADTEACHER | DIRPRWY BENNAETH

Ms. Nerys Phillips

## CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL | CHAIR OF THE GOVERNING BODY

Mr. David Childs

## MATH O YSGOL | TYPE OF SCHOOL

Ysgol Gynradd Gymraeg | Welsh Medium Primary

## NIFEROEDD O DDISGYBLION | PUPIL NUMBERS

420 o ddisgyblion yn cynnwys 60 plentyn Meithrin (rhan amser) |  
420 pupils including 60 Nursery children (part time)

## YSGOL UWCHRADD A FWYDIR | SECONDARY SCHOOL FED

Ysgol Gyfun Gwynllwyd



ARWYDDAIR YR YSGOL | SCHOOL MOTTO

# Meithrin *Meddylian* Craff

'Nurturing Inquisitive Minds'

GWELEDIGAETH YR YSGOL | SCHOOL VISION

Ein cenhadaeth ar gyfer Ysgol Panteg yw datblygu ein plant mewn sefydliad diogel a hapus lle rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu dinasyddion hyderus ar gyfer y dyfodol. Rydym yn falch o roi iaith a hanes Cymru wrth galon ein haddysgu wrth gofleidio technolegau newydd a meithrin balchder yn ein cymunedau. Trwy wrando ar ein plant a chefnogi ein teuluoedd, byddwn yn meithrin amgylchedd parchus lle gallwn ddathlu ein llwyddiannau a helpu ein gilydd. Ein bwriad yw rhoi dechrau hapus a phositif i'ch plentyn i addysg statudol. Gobeithiwn y bydd y llyfrynn hwn yn eich helpu i baratoi eich plentyn ar gyfer ei flwyddyn gyntaf gyda ni.

*Our mission for Ysgol Panteg is to develop our children in a safe and happy place where we work together to create confident citizens for the future. We are proud to place the language and history of Wales at the heart of our teaching while embracing new technologies and fostering pride in our communities. By listening to our children and supporting our families, we will build a respectful and nurturing environment where we can celebrate our successes and help each other. Our intention is to give your child a happy start to their statutory education. Hopefully this booklet will help you prepare your child for their first year with us.*





# HANES AC AMCANION | HISTORY AND AIMS

## HANES YR YSGOL | THE SCHOOL'S HISTORY

Agorodd Ysgol Panteg ei drysau ym mis Medi 2010 ar y safle wreiddiol ar stryd Rhydychen yn Griffithstown gyda 36 o blant. Plannodd y plant hyn 36 o fylbiau cennin pedr sy'n cael eu cynrychioli gan y 36 cenhinen bedr ar fathodyn yr ysgol. Wrth i'r ysgol dyfu lleolwyd Ysgol Panteg ar ddau safle yn Griffithstown a Kemys Fawr, Sebastopol. Ers mis Chwefror 2017 rydym wedi ein lleoli ar ein safle bresennol ar Ffordd yr Orsaf. Ar hyn o bryd mae gennym dros 400 o ddisgyblion yn hannu o ardal Pont-y-Pŵl, Griffithstown, New Inn a Sebastopol. Mae'r disgyblion yn mwynhau ac yn profi addysg gyfrwng Cymraeg a chyfoeth o brofiadau cyffrous.

*Ysgol Panteg opened its doors in September 2010 on the original site on Oxford Street in Griffithstown with 36 children. These children planted 36 daffodil bulbs which are represented by the 36 daffodils on the school badge. As the school grew Ysgol Panteg was then situated on two sites in Griffithstown and Kemys Fawr, Sebastopol. Since February 2017 we have been located on our fantastic site on Station Road. At present we have over 400 pupils coming from the Pontypool, Griffithstown, New Inn and Sebastopol area all enjoying and experiencing Welsh medium education and a wealth of exciting experiences.*



## GWELEDIGAETH YR YSGOL | SCHOOL VISION

- Creu amgylchedd croesawgar a diogel lle mae plant, staff a'r rhieni'n hyderus ac yn llawn cymhelliant;
  - Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys, ei werthfawrogi a'i barchu waeth beth fo'u gallu, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, cefndir teuluol, diwylliant neu iaith y cartref;
  - Annog plant i wneud eu gorau glas, gan sicrhau bod y heriau addysgu'n gwella sgiliau a hunan-hyder plant;
  - Rhoi amser i blant siarad am eu dysgu ag oedolion ac i blant eraill;
  - Darparu profiadau dysgu sy'n meithrin creadigrwydd, brwdfrydedd a chwilfrydedd plant;
  - Darparu profiadau dysgu sy'n meithrin hunan-barch a helpu plant i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag eraill yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach;
  - Helpu plant i ddatblygu i fod yn ddinasyyddion dibynadwy, annibynnol a chadarnhaol;
  - Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn ein gadael yn unigolion hyderus yn credu ynddo'i hun ond yn dangos parch at eraill a ffurio a chynnal perthnasoedd ag eraill plant ac oedolion.
- 
- *To create a welcoming and secure environment where children, staff and parents are confident and motivated;*
  - *To ensure that all children feel included, valued and respected regardless of their ability, gender, disability, ethnicity, religion, family background, culture or home language;*
  - *To encourage children to do their 'very best', ensuring that the teaching challenges each and every child to enhance their skills and self-confidence;*
  - *To give children time to talk about their learning to adults and other children;*
  - *To provide learning experiences which foster children's creativity, enthusiasm and curiosity;*
  - *To provide learning experiences which foster self-esteem and help children to develop positive relationships with others both within the school and in the wider community;*
  - *To help children develop into reliable, independent and positive citizens;*
  - *Our aim is to ensure that every child leaves us as a confident individual, believing in themselves and showing respect and concern for others.*






# EIN GWERTHOEDD | OUR VALUES

Fel cymuned, rydym wedi bod yn ymchwilio i 'beth sy'n gwneud i Panteg dicio'. Rydym wedi cynnal sesiynau gyda'r plant i weld beth sy'n eu cyffroi, sut y dylai ein hysgol edrych a beth sy'n bwysig iddynt. Rydym wedi anfon holiaduron ac wedi derbyn ymatebion o ansawdd sydd wedi ein helpu i weld beth sy'n bwysig i chi fel teuluoedd. Rydym wedi cynnal trafodaethau staff a sesiynau hyfforddi am ein gwerthoedd fel ysgol yn ogystal â'r hyn sy'n hanfodol i'n llwyddiant fel teulu a chymuned ysgol. Rydym wedi anfon holiaduron llywodraethwyr. Yn ein harchwiliadau ni, daeth pedwar peth allweddol drwodd ar draws pob set o bobl. Yn sail i bwrpas ein hysgol, fel yr amlinellir yn ein arwyddair ('Meithrin Meddyliau Craff'), mae pedwar bloc adeiladu – dyma ein gwerthoedd. Fel ysgol, rydym am fyw ac anadlu'r pedwar gwerth craidd hyn a dal ein hunain atynt fel ein nodau a'n dyheadau. Gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni ymrwymo i fod yn garedig wrth ein gilydd ac yn deulu cyd-gefnogol. Rhaid inni ymrwymo i fod yn angerddol gyda chymhelliant i ddysgu a sicrhau lles pob aelod o'n cymuned. Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol a mynnu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer y gymuned hon, yr ysgol hon a phob unigolyn.

*As a community, we have been investigating 'what makes Panteg tick'. We've held sessions with the children to see what excites them, what they think our school should look like and what is important to them. We've sent questionnaires and received quality responses which have helped us to see what is important to you as families. We've held staff discussions and training sessions about our values as a school as well as what is vital for our success as a school family and community. We've sent governor questionnaires. In our exploration, four key things came through across all sets of people. Underpinning our school's purpose, as outlined in our motto ('Meithrin Meddyliau Craff' – 'Nurturing Sharp Minds'), there are four building blocks – these are our values. As a school, we want to live and breathe these four core values and hold ourselves to them as our aims and aspirations. Together we must commit to being kind to one another and a co-supportive family. We must commit to being fired up with motivation for learning, the Welsh language and ensuring the wellbeing of all members of our community. We must be ambitious and hold high expectations for this community, this school and each and every individual.*



Caredig



Kind

Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n garedig sy'n meddwl:

- rydyn ni'n gefnogol;
- rydyn ni'n dangos parch tuag at bawb a phopeth sydd o'n cwmpas;
- rydyn ni'n gwrtais ac yn feddylgar;
- rydyn ni'n empathetig;
- rydyn ni'n gwrandio ar ein gilydd;
- rydyn ni'n trin pawb yn deg;
- rydyn ni'n dangos ymrwymiad at bobl eraill a'u cynnwys;
- rydyn ni'n deall bod pawb yn werthfawr;
- rydyn ni'n gofalu am ein hunain ac eraill;
- rydyn ni'n dathlu ein gwahaniaethau, ein cryfderau a'n unigolrwydd.

At Ysgol Panteg, we are kind which means:

- we are supportive;
- we show respect for everyone and everything around us;
- we are polite;
- we are thoughtful;
- we are empathetic;
- we listen to each other;
- we treat everyone fairly;
- we show commitment to others and include them;
- we understand that everyone is valuable;
- we look after ourselves and others; we celebrate our differences, strengths and individuality.

Teulu



Family

Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n deuluol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n ofalgar o eraill a'n hunain;
- rydyn ni'n gynnes tuag at ein gilydd;
- rydyn ni'n ymfalchïo yn ein Cymreictod a'n hiaith;
- rydyn ni'n cyfrannu at y gymuned ehangach;
- rydyn ni'n deall bod gan pob person llais a'r hawl i gael i'w clywed;
- rydyn ni'n cydweithio ac yn deall gyda'n gilydd gallwn gorchfygu unrhyw her;
- rydyn ni'n magu hyder trwy rhngweithio;
- rydyn ni'n cymuned cyd-ddibynnol hapus ac angerddol;
- rydyn ni'n gyfeillgar a chroesawgar.

At Ysgol Panteg, we are a family which means that:

- we are caring of others and ourselves;
- we are warm towards each other;
- we take pride in our Welshness and our language;
- we contribute to the wider community;
- we understand that every person has a voice and they have the right to be listened to;
- we work together and understand together we can overcome almost any challenge;
- we build confidence through interacting and working together;
- we are a happy and 'fired up' interdependent community;
- we are friendly and welcoming.

Angerddol



Fired Up

Yn Ysgol Panteg, rydyn ni'n angerddol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n meddu ar Tân yn ein boliau dros ein hiaith, ein haddysg a theulu Panteg;
- rydyn ni'n parchu bod pawb yn wahanol ac yn unigryw;
- rydyn ni'n benderfynol fe fydd tegwch i bawb ar bob achlysur;
- rydyn ni'n herio stereoteipiau;
- rydyn ni'n benderfynol bydd pawb yn llwyddiannus;
- rydyn ni'n frwd ac yn awyddus i cyd-lwyddo ym mhob maes ag ymdrechwn;
- rydyn ni'n mwynhau dysgu ac yn dysgwyr gydol oes.

At Ysgol Panteg, we are 'fired up' because:

- we have a fire in our hearts for our language, our education and the family of Panteg family;
- we respect everyone as different and unique;
- we are determined that there will always be fairness for all;
- we challenge stereotypes;
- we are determined that everyone will be successful;
- we are passionate and keen to achieve success in all areas we strive for;
- we enjoy learning and are lifelong learners.

Uchelgeisiol



Ambitious

Yn Ysgol Panteg, rydyn yn uchelgeisiol sy'n meddwl:

- rydyn ni'n herio'n hunain i wella;
- rydyn ni'n dangos gwydrwch wrth ddelio gyda sefyllfaedd anghyffredin neu anodd;
- rydyn ni'n cymryd balchder yn ein gwaith;
- rydyn ni'n mentro yn ein dysgu ac yn trio pethau newydd, arloesol;
- rydyn ni'n benderfynol i ddyfalbarhau gyda ein gwaith nes ein bod ni'n llwyddo;
- rydyn ni'n gweithio'n annibynnol gan feddwl dros ein hunain;
- rydyn ni'n gweithio fel rhan o dimoedd a theulu ehangach Panteg;
- rydyn ni'n ymwybodol o'n targedau ac yn gweithio arnynt nhw yn rheolaidd.

At Ysgol Panteg, we are ambitious which means:

- we challenge ourselves to improve;
- we show resilience in dealing with unfamiliar or difficult situations;
- we take pride in our work;
- we take sensible risks in our learning and try new, innovative things;
- we are determined to persevere with our work until we succeed;
- we work independently and think for ourselves;
- we work as part of a team and wider Panteg family;
- we are aware of our targets and consistently work on them.



# AMSEROEDD | TIMINGS

## ORIAU'R YSGOL | SCHOOL HOURS

Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 | Reception Class through to Year 6  
09:00-15:15

Dosbarth Meithrin Bore | Morning Nursery Class  
09:00-11:30

Dosbarth Meithrin Prynhaearn | Afternoon Nursery Class  
12:20-14:50

## ORIAU ADDYSGU | TEACHING HOURS

Cyfnod   Department	Nifer o Oriau Addysgu   Number of Teaching Hours
Oriau'r Cyfnod Sylfaen (Derbyn, Blwyddyn 1 & 2)   Foundation Phase Hours (Reception, Years 1 & 2)	22:30 awr yr wythnos   22:30 hours per week 4:50 awr y dydd   4:50 hours per day
Oriau Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3, 4, 5 & 6)   Key Stage 2 Hours (Years 3, 4, 5 & 6)	22:30 awr yr wythnos   22:30 hours per week 4:50 awr y dydd   4:50 hours per day



## DIWRNODAU HYFFORDDIANT I STAFF | TRAINING DAYS FOR STAFF

Fe fydd 6 diwrnod hyfforddiant ar draws y flwyddyn. Ni fydd plant yn mynchur ysgol ar y diwrnodau hyn. | There will be 6 training days across the course of the year. There will be no school for children on these days.



# PRESENOLDEB A CHINIO | ATTENDANCE AND LUNCHES

## PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB | ATTENDANCE AND PUNCTUALITY

Mae presenoldeb a phrydlondeb ysgol rheolaidd yn hanfodol os yw disgyblion i elwa o'r cyfleoedd sydd gan yr ysgol i'w cynnig. Gofynnwn i chi'n garedig gysylltu â swyddfa'r ysgol ar 01495 762581 cyn 8:45 yb gan nodi'r rheswm dros yr absenoldeb. Bydd hwn wedi'i fewngofnodi ar system electronig yr ysgol.

Gellir awdurdodi absenoldebau ar gyfer:

- salwch, triniaeth feddygol neu ddeintyddol
- gwyliau crefyddol
- argyfyngau domestig

Pwysleisiwn mai ond am y rhesymau priodol y gallwn roi marc absenoldeb awdurdodedig. Cofnodir bod pob absenoldeb arall yn anawdurdodedig. Ni roddir caniatâd i blant fod yn absennol oherwydd gwyliau. Nodir unrhyw cyfnod o absenoldeb, ar wahân i salwch, gwyliau crefyddol ac argyfnwg teulu fel absenoldeb anawdurdodedig. Os yw plentyn yn derbyn 10 marc absenoldeb heb awdurdod (h.y. 5 diwrnod ysgol), gallai'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad/gwarcheidwaid dderbyn Rhybudd Cosb Sefydlog.

*Regular school attendance and punctuality is vital if pupils are to benefit from the opportunities the school has to offer. We ask you kindly to contact the school office on 01495 762581 before 8:45am in the morning noting the reason for the absence. This will be logged on the school's electronic system.*

Absences may be authorised for:

- illness, medical or dental treatment
- religious holidays
- domestic emergencies

*We emphasise that we can only give an authorised absence mark for the appropriate reasons. All other absences are recorded as unauthorised. Permission is not granted for children to be absent due to holidays. Any period of absence, apart from sickness, religious holidays and family emergencies will be marked as an unauthorised absence. If a child receives 10 unauthorised absence marks (i.e. 5 school days), parent(s)/guardian(s) could receive a Fixed Penalty Notice.*

## DISGYBLAETH | DISCIPLINE

Mae Ysgol Panteg yn ysgol gynhwysol. Credwn ei bod yn hanfodol i ddisgyblion ddatblygu hunanddisgyblaeth. O'r dechrau, dysgir disgyblion i barchu eraill, cyfoedion ac oedolion fel ei gilydd. Trwy'r enghraifft a osodwyd gan y staff, byddant yn dysgu bod yn gwrtais ac yn ystyriol o deimladau pobl eraill. Rydym yn dathlu ymddygiad priodol trwy gynnal gwasanaethau arbennig a gwobrwyd disgyblion. Ceir rhai disgyblion anhawster i gydymffurfio â'r rheolau. Bydd angen cymryd camau penodol i helpu'r disgybl hwnnw i gydymffurfio. Os oes gan yr ysgol unrhyw bryderon yngylch ymddygiad disgybl byddwn yn cysylltu â'r rhieni er mwyn cydweithio i oresgyn unrhyw anawsterau. Gweler ein 'Polisi Ymddygiad Cadarnhaol' ar y wefan.

*Ysgol Panteg is a inclusive school. We believe that it is essential for pupils to develop self-discipline. From the beginning pupils will be taught to respect others, peers and adults alike. Through the example set by the staff they will learn to be courteous and considerate of other people's feelings. We celebrate appropriate behaviour by*





*holding special assemblies and rewarding pupils. Occasionally some pupils will have difficulty in complying with the rules. Steps will need to be taken to help that pupil conform. If the school has any concerns over a pupil's behaviour we will contact the parents in order to work together to overcome any difficulties. The school's 'Positive Behaviour Policy' can be found on our website.*

### CINIO YSGOL | SCHOOL LUNCHES

Darperir cinio bob dydd gan yr ysgol. Dyfeisiwyd y bwydleni cinio gan ddeietegwyr y Sir. Maent yn flasus, yn llenwi ac yn faethlon. Mae opsiynau llysieuol ar gael bob dydd. Nid ydym yn codi tal ar gyfer cinio ysgol gan eu bod yn cael eu talu gan raglen cinio rhad ac am ddim Llywodraeth Cymru.

*Lunches are provided daily by the school. The lunch menus have been devised by the Torfaen County Borough Council's dieticians. They are tasty, filling and nutritious. Vegetarian options are available daily. School lunches are free through the Welsh Government's Universal Free School Meals programme.*

### CINIO O ADREF | LUNCHES FROM HOME

Os darperir pecyn bwyd o adref, gofynnwn yn garedig am eu cydweithrediad wrth gefnogi ein polisi ysgol iach, trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac ati yn y blwch cinio llawn.

*If a packed lunch is provided from home, we ask for their kind cooperation in supporting our healthy school policy, by not including chocolate, sweets etc in the packed lunch box.*

### CLWB BRECWAST AM DDIM | FREE BREAKFAST CLUB

Mae Ysgol Panteg yn cynnig clwb brecwast am ddim. Pwrpas y clwb yw darparu brecwast maethlon i'r plant. Mae'r clwb ar agor rhwng 8:15yb ac 8:45yb. Os ydych chi am gofrestru'ch plentyn yn y clwb hwn, yna cysylltwch â'r ysgol.

*Ysgol Panteg offers a free breakfast club. The purpose of the club is to provide a nutritious breakfast for children. The club is open between 8:15am and 8:45am. If you wish to register your child in this club, then please contact the school.*



# CANLLAWIAU GWISG | CLOTHING GUIDELINES

## GWISG YSGOL | SCHOOL UNIFORM

Er mwyn i bob disgylw deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol disgylir iddynt gwisgo'r wisg ysgol bob dydd (gan gynnwys plant Meithrin). Porffor a melyn yw lliwiau'r ysgol. Mae crysau polo melyn i'w gwisgo gydag chardigan neu siwmper borffor. Gofynnwn iddynt wisgo trowsus du, siorts neu sgert gydag esgidiau du a sanau gwyn neu ddu. Sicrhewch fod pob dilledyn, het, bag ac ati wedi'i labelu'n glir gydag enw'ch plentyn. Annogir eich plentyn i gymryd rhan weithredol yn holl weithgareddau'r ysgol i gynnwys paentio, coginio, gweithio gyda glud a chlai yn ogystal â garddio. Darperir ffedogau ond mae'n anochel y bydd eich plentyn yn mynd yn fudr ac yn marcio ei ddillad o bryd i'w gilydd. Gofynnir i chwi ar adegau i anfon hen ddillad i'r ysgol gyda'ch plentyn ar gyfer gweithgareddau o'r fath. Gofynnwn yn garedig i chi beiddio ag anfon eich plentyn i'r ysgol mewn esgidiau "slip-on", gwadnau pren neu esgidiau uchel. Maent yn beryglus ac felly'n anaddas. Diolchwn ichi am eich cydweithrediad yn y mater hwn.

*In order that every pupil can feel part of the school community it is expected that all pupils wear the school uniform every day (including Nursery children). Our colours are purple and yellow. Yellow polo shirts are to be worn with purple cardigan or sweater. Black trousers, shorts or skirt to be worn with black shoes and white or black socks. Please ensure that every item of clothing, hat, bag etc. is clearly labelled with your child's name. Your child will be encouraged to take an active part in all school activities and will be painting, cooking, working with glue and clay as well as gardening. Aprons will be provided but your child will inevitably get dirty and marks on their clothing from time to time. You may also be asked to send old clothing to school with you child for such activities. Please remember to label your child's name on all clothing. We kindly ask that you do not send your child to school in slip-on, wooden-soled shoes or high-laced boots. They are dangerous and, therefore, unsuitable. We thank you for your cooperation in this matter.*

*Gellir prynu gwisg ysgol oddi wrth | School uniform can be purchased from:*

*Pretty Miss, 5 Caradoc Road, Cwmbran, NP44 1PP. 01633 484408.*

*Ruck um Maul, Unit 27, Waunfelin, Pontypool. NP4 6PB. 01495 769467.*

## GWISG YMARFER CORFF | PHYSICAL EDUCATION CLOTHING

Mae'r wisg Addysg Gorfforol yn cynnwys siorts du / gwaelodion loncian, crys-t gwyn a esgidiau ymarfer addas. Er mwyn cynnal safonau hylendid personol derbyniol mae'n ofynnol i ddisgyblion Derbyn, Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 newid ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Rydym yn gwahodd plant i ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff yn hytrach na newid. Byddwch yn cael gwybod am ddiwrnodau Ymarfer Corff eich plentyn ymlaen llaw.

*PE kit is to be black shorts / jogging bottoms, white t-shirt and suitable foot wear. In order to maintain acceptable standards of personal hygiene the pupils of Reception, Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 are required to change for Physical Education lessons. We invite children to come to school in their PE kit rather than change. You will be informed of your child's PE days in advance.*





# ANNIBYNIAETH PLANT | CHILDREN'S INDEPENDENCE

Rydyn ni'n creuu bod meithrin annibynaeth plant yn cwmpasu agweddu amrywiol ar eu datblygiad corfforol, emosiynol a gwybyddol. O gamau cynnar plentyndod i lencyndod, mae meithrin annibynaeth yn hanfodol ar gyfer adeiladu uniglion gwydn a hyderus sy'n gallu llywio cymhlethdodau bywyd.

*We believe that fostering children's independence encompasses various aspects of their physical, emotional, and cognitive development. From the early stages of childhood to adolescence, cultivating independence is essential for building resilient and confident individuals who can navigate the complexities of life.*

## PLENTYNDOD CYNNAR | EARLY CHILDHOOD

Yn y blynnyddoedd ffurfiannol, mae hybu annibynaeth yn dechrau gydag annog sgiliau hunangymorth sylfaenol. Mae tasgau syml fel gwisgo eu hunain, brwsio eu dannedd, neu drefnu teganau yn cyfrannu at ymdeimlad cynyddol plentyn o ymreolaeth. Mae hyn nid yn unig yn adeiladu sgiliau echddygol ond hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer cyfrifoldeb. Fel teuluoedd a staff ysgol, mae darparu cyfleoedd i wneud penderfyniadau o fewn amgylchedd rheoledig yn galluogi plant i brofi ymdeimlad o asiantaeth, gan osod y sylfaen ar gyfer annibynaeth yn y dyfodol.

*In the formative years, promoting independence starts with encouraging basic self-help skills. Simple tasks like dressing themselves, brushing their teeth, or organising toys contribute to a child's growing sense of autonomy. This not only builds motor skills but also establishes a foundation for responsibility. As families and school staff, providing opportunities for decision-making within a controlled environment allows children to experience a sense of agency, laying the groundwork for future independence.*

## ANNIBYNIAETH ACADEMIG | ACADEMIC INDEPENDENCE

Wrth i blant symud ymlaen yn eu haddysg, daw pwysigrwydd annibynaeth academaidd i'r amlwg. Mae eu hannog i gymryd perchnogaeth o'u proses ddysgu yn meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a chwlifrydedd. Mae caniatáu iddynt fynd i'r afael â phroblemau'n annibynnol, tra'n darparu arweiniad pan fo angen, yn meithrin sgiliau meddwl beirniadol. Mae'r ymreolaeth hon mewn dysgu yn eu paratoi ar gyfer heriau addysg uwchradd a thu hwnt, lle mae astudio hunangyfeiriedig a datrys problemau yn hanfodol.

*As children progress in their education, the importance of academic independence becomes evident. Encouraging them to take ownership of their learning process fosters a sense of responsibility and curiosity. Allowing them to tackle problems independently, while providing guidance when needed, cultivates critical thinking skills. This autonomy in learning prepares them for the challenges of secondary education and beyond, where self-directed study and problem-solving are integral.*

## ANNIBYNIAETH GYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL | SOCIAL AND EMOTIONAL INDEPENDENCE

Mae datblygu annibynaeth gymdeithasol ac emosiynol yr un mor hanfodol. Credwn bod angen i blant ddysgu rheoli eu hemosiynau, gwneud ffrindiau, a datrys gwrthdaro ar eu pen eu hunain. Mae darparu amgylchedd cefnogol lle gallant fynegi eu hunain yn rhydd yn helpu i adeiladu deallusrwydd emosiynol. Mae caniatáu iddynt lywio sefyllfaoedd cymdeithasol yn annibynnol yn dysgu sgiliau rhwngbersonol gwerthfawr, gan feithrin hyder yn eu gallu i gysylltu ag eraill.



*Developing social and emotional independence is equally crucial. We believe that children need to learn to manage their emotions, make friends, and resolve conflicts on their own. Providing a supportive environment where they can express themselves freely helps build emotional intelligence. Allowing them to navigate social situations independently teaches valuable interpersonal skills, fostering confidence in their ability to connect with others.*

### **GWNEUD PENDERFYNIADAU A DATRYS PROBLEMAU | MAKING DECISION AND SOLVING PROBLEMS**

Mae grymuso plant i wneud penderfyniadau, hyd yn oed rhai bach, yn cyfrannu'n sylweddol at eu hannibyniaeth. Wrth wynebu dewisiadau, maent yn dysgu pwysa mesur opsiynau, ystyried canlyniadau, a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau. Mae'r broses hon yn meithrin sgiliau gwneud penderfyniadau a hyder yn eu gallu i lywio byd sy'n llawn dewisiadau. Mae annog datrys problemau mewn cyd-destunau amrywiol yn helpu plant i ddatblygu gwytnwch, y gallu i addasu, a dyfeisgarwch.

*Empowering children to make decisions, even small ones, contributes significantly to their independence. When faced with choices, they learn to weigh options, consider consequences, and take responsibility for their decisions. This process builds decision-making skills and confidence in their ability to navigate a world filled with choices. Encouraging problem-solving in various contexts helps children develop resilience, adaptability, and resourcefulness.*

### **MEITHRIN MEDDYLFRYD TWF | CULTIVATING A GROWTH MINDSET**

Mae annog meddylfryd twf yn hanfodol i feithrin annibyniaeth. Mae meddylfryd twf yn gred y gellir datblygu deallusrwydd, galluoedd a thalentau trwy ymroddiad, ymdrech a dysgu. Mae'r cysyniad hwn, a gyflwynwyd gan y seicolegydd Carol Dweck, yn cyferbynnyd meddylfryd sefydlog sy'n gweld galluoedd yn ddigyfnewid. Mae'r meddylfryd twf yn annog unigolion, gan gynnwys plant, i groesawu heriau, parhau yn wyneb rhwystrau, a gweld methiannau fel cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella.

Mae Carol Dweck yn sôn am 'bŵer eto'. Mae 'pŵer eto' wir yn crynhoi potensial trawsnewidiol meddylfryd twf. Wrth wynebu heriau, mae ychwanegu 'eto' at ddatganiadau negyddol yn eu hail-fframio'n gyfleoedd ar gyfer twf. Er enghraift, mae dweud "Ni allaf wneud hyn" yn dod yn "Ni allaf wneud hyn eto." Mae'r ychwanegiad syml hwn yn meithrin cred yn eich gallu i wella gydag ymdrech ac amser. Mae gafael ym 'phŵer eto' yn arf pwerus, yn enwedig i blant, gan feithrin gwydnwch, dyfalbarhad, a'r ddealltwriaeth y gall galluoedd esblygu trwy ymroddiad a dysgu.

*Encouraging a growth mindset is integral to fostering independence. A growth mindset is a belief that intelligence, abilities, and talents can be developed through dedication, effort, and learning. This concept, introduced by psychologist Carol Dweck, contrasts with a fixed mindset that sees abilities as unchangeable. The growth mindset encourages individuals, including children, to embrace challenges, persist in the face of setbacks, and view failures as opportunities for learning and improvement.*

*Carol Dweck talks about the 'power of yet'. The 'power of yet' really encapsulates the transformative potential of a growth mindset. When faced with challenges, adding 'yet' to negative statements reframes them into opportunities for growth. For example, saying "I can't do this" becomes "I can't do this yet." This simple addition fosters a belief in one's ability to improve with effort and time. Embracing the 'power of yet' is a powerful tool, particularly for children, instilling resilience, perseverance, and the understanding that abilities can evolve through dedication and learning.*





# DIOGELWCH | SAFETY



## MEDDYGINIAETHAU A DAMWEINIAU | MEDICINES AND ACCIDENTS

Bydd staff yr ysgol yn rhoi meddyginaethau i'r disgyblion yn ystod amgylchiadau arbennig - cysylltwch â swyddfa'r ysgol i gael mwy o wybodaeth. Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol sy'n gofyn am feddyginaeth reolaidd (e.e. epilepsi, asthma ac ati) cysylltwch â'r penneth er mwyn gwneud y trefniadau priodol. Dim ond meddyginaeth sydd wedi'i rhagnodi gan y meddyg teulu y gall staff yr ysgol ei rhoi. Er mwyn i ni roi'r feddyginaeth rhaid i chi lenwi'r ffurflen briodol sydd ar gael yn swyddfa'r ysgol. Mae aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ac mae ganddynt dystysgrifau cyfoes. Mewn argyfwng difrifol, bydd yr ysgol yn galw am gymorth y gwasanaethau brys yn gyntaf ac yna'n gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r rhiant.

*The school staff will administer medicines to the pupils during special circumstances – please contact the school office for further information. If your child has a medical condition that requires regular medication (e.g. epilepsy, asthma etc.) please*

*contact the head in order to make special arrangements. The school staff can only administer medication that has been prescribed by the GP. In order for us to administer the medicine you must complete the appropriate form available at the school office. Members of staff have received first aid training and hold up-to-date certificates. In a serious emergency, the school will call for professional help first and will then make every effort to contact the parent.*

## DIOGELU PLANT | SAFEGUARDING

Y penneth, Dr. Matthew James Williamson-Dicken, yw'r swyddog amddiffyn plant dynodedig ar gyfer yr ysgol. Yn absenoldeb y penneth, Ms. Nerys Phillips sy'n gyfrifol. Mae holl staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant blynnyddol wedi'i ddiweddar ynghyrch materion amddiffyn plant.

*The head, Dr. Matthew James Williamson-Dicken, is the designated child protection officer for the school. In the absence of the head, Ms. Nerys Phillips is responsible. School staff receive annual updated training regarding child protection issues.*

## IECHYD A DIOGELWCH | HEALTH AND SAFETY

